Datganiad Drafft ar Gydweithio Is-ranbarthol

Datganiad ar Gydweithio Is-ranbarthol ar gyfer Gogledd-ddwyrain Cymru 2019-2024: *Y dull o fodloni'r angen is-ranbarthol am fwynau agregau*

1. Rhagarweiniad

1.1 Mae ail adolygiad y Datganiad Technegol Rhanbarthol (DTRh2) yn datgan, lle nad yw awdurdodau lleol yn gallu bodloni eu cyfran ddangosol unigol i ddarparu mwynau agregau, fod angen i'r holl awdurdodau lleol o fewn yr is-ranbarth hwnnw gydweithio a chydweithredu er mwyn sicrhau bod cyfran gyffredinol yr is-ranbarth yn parhau i gael ei bodloni, i ddarparu cyflenwad cyson o fwynau agregau ar draws yr is-ranbarth.

1.2 Mae'r Datganiad Cydweithio Is-ranbarthol hwn (DCIR) wedi'i baratoi ar y cyd â Chyngor Sir Ddinbych, Cyngor Sir y Fflint a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, ac yn cyflwyno'r DCIR cyntaf y cytunwyd arno ar gyfer is-ranbarth Gogledd-ddwyrain Cymru i ddarparu mwynau agregau.

1.3 Bydd y DCIR hwn sydd wedi'i gytuno'n cael ei ddefnyddio ar gyfer y sail dystiolaeth i lunio polisïau'r CDLl o ran bodloni ffigwr y gyfran is-ranbarthol ar gyfer mwynau agregau, fel mae'r Datganiad Technegol Rhanbarthol (DTRh) yn ei nodi. Bydd hefyd yn cael ei ddefnyddio wrth asesu'r angen am fwynau agregau wrth ystyried a phenderfynu ar geisiadau cynllunio ar gyfer datblygiadau agregau yn yr is-ranbarth, a bydd yn cael ei ddefnyddio wrth reoli datblygiadau ac yn y broses benderfynu fel ystyriaeth gynllunio sylweddol o ran angen, a'r angen am fwynau agregau yn yr is-ranbarth.

1.4 Mae'r DCIR yn dangos bob pob rhan sy'n ffurfio is-ranbarth Gogledd-ddwyrain Cymru yn ymrwymo i gydweithio rhwng awdurdodau o ran darparu mwynau agregau, i ddarparu'r gyfran is-ranbarthol o'r DTRh fel is-ranbarth, i sicrhau cyflenwad sefydlog o fwynau agregau ar draws yr is-ranbarth a thu hwnt.

1.5 Mae'r DCIR hwn yn rhoi eglurder ac yn cadarnhau bod Cyngor Sir Ddinbych, Cyngor Sir y Fflint a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn gytûn y bydd ffigyrau cyfrannol unigol ardaloedd awdurdodau Gogledd-ddwyrain Cymru sydd i'w gweld yn DTRh2 yn cael eu hystyried fel cyfanswm y ffigwr cyfrannol is-ranbarthol gan gytuno, er bod y DTRh yn nodi cyfran unigol i ardaloedd yr awdurdodau, y byddant yn cael eu cyfrif ynghyd a'u hystyried fel ffigwr cyfrannol is-ranbarthol cyfun.

2 Ffigyrau cyfrannol DTRh2

2.1 Mae DTRh2 yn nodi'r gyfran angenrheidiol o gerrig wedi'u malu a thywod a gro ar gyfer pob un o ardaloedd Awdurdodau Cynllunio Lleol Gogledd Cymru o 2019 i 2024. Ar ôl y cyfnod hwn, bydd adolygiad arall yn cael ei gynnal.

Cyflenwad Tywod a Gro yn is-ranbarth y Gogledd-ddwyrain

2.2 Mae'r tabl canlynol yn cyflwyno rhan o Dablau A6 yn DTRh2 ac yn nodi'r ffigyrau cyfrannol sydd yn DTRh2 ar gyfer is-ranbarth Gogledd-ddwyrain Cymru o ran tywod a gro.

Tabl A6: Cyfrannau, Cyfeintiau wrth Gefn a Dyraniadau ar gyfer Tywod a Gro yng Ngogledd-ddwyrain Cymru

Awdurdod Cynllunio Lleol	Cyfran Flynyddol Newydd o dywod a gro (miliwn tunnell)	Cyfanswm y Gyfran Angenrheidiol dros 22 o flynyddoedd (miliwn tunnell)	Cyfeintiau wrth Gefn Presennol a Ganiateir	Isafswm y Dyraniad sydd ei angen	Cyfeintiau wrth gefn ychwanegol Safleoedd segur, 2016 (miliwn tunnell)
Sir Ddinbych	0.000	0.000	0.000	**0.000**	0
Sir y Fflint	0.223	4.912	1.369	**3.543**	0.5
Wrecsam	0.646	14.217	12.652	**1.565**	0

2.3 Ar hyn o bryd, yn ôl ffigyrau DTRh2, mae angen i Sir y Fflint a Wrecsam wneud darpariaethau yn eu CDLl neu adolygiad dilynol o'u CDLl am gyfaint bach o dywod a gro ar ffurf dyraniadau neu ddynodiadau fel 'ardaloedd chwilio' neu 'ardaloedd a ffefrir' drwy gydol cyfnod y cynllun. Mae dyraniadau arfaethedig wedi'u nodi yn nrafft CDLl Sir y Fflint i'w archwilio o 1.4 miliwn tunnell ac felly mae diffyg o 2.413 tunnell i'w ganfod dros gyfnod y cynllun. Ynghyd â'r gyfran ar gyfer Wrecsam o 1.565 miliwn tunnell, mae awdurdodau Gogledd-ddwyrain Cymru wedi cytuno i fodloni'r gyfran is-ranbarthol gyfun hon ar y cyd un ai trwy ymestyn safle tywod a gro presennol neu ddynodi safle newydd yn yr is-ranbarth. Mae'r DCIR hwn yn cadarnhau bod awdurdodau is-ranbarth Gogledd-ddwyrain Cymru wedi cytuno y byddai unrhyw ddiffyg yn cael ei ystyried yn ddiffyg cyfrannol is-ranbarthol ac y darperir ar gyfer y diffyg hwn trwy un ai; estyniadau i safleoedd cloddio tywod a gro sydd eisoes yn yr is-ranbarth, neu safle cloddio tywod a gro newydd yn yr is-ranbarth. Mae safle newydd sy'n cael ei agor gan berchennog tir neu weithredwr mwynau'n rhoi llawer mwy o sicrwydd i gyflenwi'r gyfran is-ranbarthol na dull cyffredinol 'ardal chwilio' neu 'ardal a ffefrir' i fodloni a darparu'r gyfran angenrheidiol.

2.4 Gall unrhyw gynnydd posib' yn y dyfodol i gyfran Sir Ddinbych yn dilyn adolygiad o'r DTRh mewn perthynas â thywod a gro hefyd gael ei ddarparu gan safle newydd sydd wedi'i ddynodi yn is-ranbarth Gogledd-ddwyrain Cymru.

Darparu cerrig wedi'u malu yn is-ranbarth y Gogledd-ddwyrain

2.5 Mae'r tabl canlynol yn cyflwyno rhannau o Dablau A7 yn DTRh2 ac yn nodi isafswm y ffigyrau cyfrannol sydd yn DTRh2 ar gyfer is-ranbarth Gogledd-ddwyrain Cymru o ran cerrig wedi'u malu.

Tabl A7: Cyfrannau, Cyfeintiau wrth Gefn a Dyraniadau ar gyfer Cerrig wedi'u Malu yng Ngogledd Cymru

Awdurdod Cynllunio Lleol	Cyfran Flynyddol Newydd o gerrig wedi'u malu (miliwn tunnell)	Cyfanswm y Gyfran Angenrheidiol dros 25 o flynyddoedd (miliwn tunnell)	Cyfeintiau Presennol a Ganiateir ar ddiwedd 2016 (miliwn tunnell)	Isafswm y Dyraniad sydd ei angen i fodloni'r Ddarpariaeth Angenrheidiol	Cyfeintiau wrth gefn ychwanegol Safleoedd segur, 2016 (miliwn tunnell)
Sir Ddinbych	0.860	21.500	21.710	**0.000**	0
Sir y Fflint	3.359	83.968	48.040	**35.928**	1.41
Wrecsam	0.000	0.000	0.000	**0.000**	0

2.6 Ar hyn o bryd, yn ôl ffigyrau DTRh2, nid oes angen i Sir Ddinbych na Wrecsam wneud unrhyw ddyraniadau am gerrig wedi'u malu. Mae'r DTRh2 yn cydnabod bod yr adnodd mwynol o gerrig wedi'u malu sydd yn Wrecsam wedi'i gyfyngu'n helaeth gan AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy lle mae rhagdybiaeth yn erbyn datblygiadau mwynol newydd, ac felly mae wedi gosod y ddarpariaeth o gerrig wedi'u malu i Wrecsam ar ddim.

2.7 Mae ffigwr cyfrannol Sir Ddinbych o ddim yn cael ei adlewyrchu ym manc tir mawr y Sir o adnoddau cerrig wedi'u malu sy'n cael eu cadw mewn chwareli segur yn y Sir. Fodd bynnag, mae ffigyrau DTRh2 wedi'u pennu o ddata o 2016 ac ers hynny mae Chwrel Dinbych a Chwarel y Graig wedi dechrau gweithredu eto. Ar ben hynny, mae Chwarel Burley Hill i ailddechrau gweithredu yn 2021. O ganlyniad, bydd y banc tir yn Sir Ddinbych yn lleihau, ac mae'n debygol y bydd angen i Sir Ddinbych ddarparu dyraniadau o gerrig wedi'u malu yn y CDLl ar ôl yr adolygiad nesaf o'r DTRh.

2.8 Mae angen i Sir y Fflint ddarparu o leiaf 36 miliwn tunnell o gerrig wedi'u malu. Drafftiwyd CDLl Sir y Fflint i'w archwilio gan ddefnyddio ffigyrau DTRh1. Mae'r dyraniadau o gerrig wedi'u malu sy'n cael eu cynnig ym Mholisi EN25 yn nrafft CDLl Sir y Fflint i'w archwilio yn creu cyfanswm o 24 miliwn tunnell a fyddai'n dod o estyniadau i ddwy chwarel sy'n bod eisoes – Chwarel Pant y Pwll Dŵr gan

Cemex a Chwarel Hendre gan Tarmac. Byddai hyn wedi bod yn fwy na digon i fodloni'r gyfran yn DTRh1, sef o leiaf 3.84 miliwn tunnell. Fodd bynnag, bellach mae diffyg o o leiaf 12 miliwn tunnell ac mae angen i Sir y Fflint ddangos mewn archwiliad sut y bydd hyn yn cael ei ddarparu trwy'r CDLl, trwy gydol cyfnod y cynllun.

2.9 Mae'r dyraniad arfaethedig ar gyfer yr estyniad i Chwarel Hendre sydd wedi'i gyflwyno yn EN25.1 yn nrafft CDLl Sir y Fflint ar gyfer 11 miliwn tunnell. Fodd bynnag, ers cyflwyno'r dyraniad, mae cais cynllunio ar gyfer yr estyniad hwn bellach wedi'i gyflwyno ac roedd yr estyniad arfaethedig yn cynnig darparu 8.866 miliwn tunnell arall yn ychwanegol at y dyraniad arfaethedig. Mae'r cais yn cynnig estyniad o 19.866 miliwn tunnell. Felly, os bydd caniatâd cynllunio yn cael ei roi, byddai'r estyniad hwn yn Chwarel Hendre yn cyfrannu'n sylweddol at fanc tir y Sir a'r ffigwr cyfrannol. Pe bai caniatâd cynllunio yn cael ei roi, byddai'r diffyg cyfrannol ar gyfer Sir y Fflint yn gostwng i 3.062 miliwn tunnell yn unig.

2.10 Mae'r DCIR hwn yn cadarnhau bod awdurdodau is-ranbarth Gogledd-ddwyrain Cymru wedi cytuno y byddai unrhyw ddiffyg o gerrig wedi'u malu'n cael ei ystyried yn ddiffyg cyfrannol is-ranbarthol ac y darperir ar gyfer y diffyg hwn trwy un ai; estyniadau i chwareli cerrig wedi'u malu sydd eisoes yn yr is-ranbarth, neu safle chwarel newydd ar gyfer cerrig wedi'u malu sydd hefyd yn yr is-ranbarth. Mae safle newydd sy'n cael ei agor gan berchennog tir neu weithredwr mwynau'n rhoi llawer mwy o sicrwydd i gyflenwi'r gyfran is-ranbarthol na dull cyffredinol 'ardal chwilio' neu 'ardal a ffefrir' sy'n cael ei gynnig mewn CDLl.

3 Safleoedd ar hap

3.1 Mae gwasanaeth Mwynau a Gwastraff Gogledd Cymru'n trafod gyda pherchnogion tir a gweithredwyr mwynau yn yr is-ranbarth i weld a oes modd ymestyn mwy o safleoedd sy'n bod eisoes, a safleoedd tir glas newydd hefyd ar gyfer tywod a gro posib' a safleoedd chwareli ar gyfer cerrig wedi'u malu a allai gyfrannu at fodloni'r ffigwr cyfrannol is-ranbarthol.

3.2 Mae Polisi EN26 CDLl i'w archwilio Sir y Fflint yn darparu meini prawf er mwyn asesu cynnig. Felly, mae darpariaeth o fewn CDLl i'w archwilio Sir y Fflint i asesu safleoedd ar hap yn y dyfodol, pe baent yn dod i'r amlwg cyn yr adolygiad dilynol o'r CDLl pan fyddai safleoedd ychwanegol yn gallu cael eu dynodi.

3.3 Mae Polisi PSE17 CDLl Sir Ddinbych yn darparu meini prawf lle mae modd asesu datblygiadau mwynau yn ôl bodloni angen y gellir ei ddangos. Mae Polisi MW3 CDLl Wrecsam sy'n cael ei ddatblygu hefyd yn darparu meini prawf lle mae modd asesu datblygiadau mwynau, pe bai safleoedd ar hap yn cael eu cyflwyno ar ffurf ceisiadau cynllunio. Felly, credir bod mecanwaith polisi cadarn i ystyried safleoedd ar hap yn y cynlluniau datblygu sydd wedi'u mabwysiadu ac sy'n cael eu llunio yn is-ranbarth Gogledd-ddwyrain Cymru, pe baent yn cael eu cyflwyno i'w hystyried cyn adolygu'r CDLlau yn yr is-ranbarth.

3.4 Gall y DCIR hwn sydd wedi'i gytuno, felly, gael ei ddefnyddio wrth asesu'r angen am fwynau agregau yn is-ranbarth Gogledd-ddwyrain Cymru wrth ystyried a phenderfynu ar geisiadau cynllunio ar gyfer datblygiadau agregau yn yr is-ranbarth. Gall gael ei ddefnyddio i reoli datblygiadau ac yn y broses benderfynu fel ystyriaeth gynllunio sylweddol o ran yr angen is-ranbarthol, yn hytrach na chyfrannau awdurdodau unigol.

4 Adolygiadau Dilynol o'r DTRh a'r DCIR

4.1 Pob pum mlynedd, mae'r DTRh yn cael ei adolygu a bydd y ffigwr cyfrannol yn newid yn ôl gwerthiant agregau a'r angen a ragwelir, gan ystyried y cyfeintiau wrth gefn presennol a ganiateir a banc tir awdurdod yr ardal. Fel y bydd gwaith yn mynd rhagddo ar y cyfeintiau wrth gefn a ganiateir, bydd y banc tir yn lleihau, a fydd yn cael effaith ar y ffigwr cyfrannol rhagdybiol ar gyfer adolygiad nesaf y DTRh.

4.2 Mae gan ffactorau economaidd rôl fawr yn y galw am fwynau agregau ac nid yw effeithiau Brexit a'r pandemig Covid-19 yn glir. Gall lefelau adeiladu ostwng ac arwain at gwymp yn yr economi. Nid yw prosiectau isadeiledd mawr fel Wylfa B yn cael eu datblygu gan Horizon bellach. Fodd bynnag, mae HS2 bellach yn cael ei ddatblygu, a fydd yn cael effaith sylweddol ar y cyfeintiau wrth gefn o fwynau agregau yn yr is-ranbarth. Mae'r holl ffactorau hyn yn annelwig ac yn anodd eu darogan. Fodd bynnag, bydd yr adolygiad nesaf o'r CTRh yn amlygu'r newidiadau hyn a bydd y system gynllunio'n ymateb yn unol â hynny yn yr adolygiadau dilynol o'r CDLlau.

4.3 Bydd y DCIR ar gyfer is-ranbarth y Gogledd-ddwyrain yn cael ei adolygu yn unol â hynny, a phan fydd angen, ar ôl cyhoeddi adolygiad y CTRh, a chyn i unrhyw awdurdod lleol yn is-ranbarth Gogledd-ddwyrain Cymru fod angen DCIR diwygiedig ar gyfer eu sail dystiolaeth yn eu hadolygiadau dilynol o'u CDLl.

5 Casgliad

5.1 Gyda chyfuniad o ddyraniadau wedi'u cynnig ym Mholisi EN25 sy'n cael ei ddatblygu o fewn CDLl Sir y Fflint, ynghyd â cheisiadau cynllunio yn y dyfodol am estyniadau i chwareli sy'n bod eisoes, neu safleoedd tir glas newydd ar draws yr is-ranbarth, ynghyd â'r newidiadau posib' i'r ffigyrau cyfrannol mewn adolygiadau dilynol o'r DTRh, mae Swyddogion yn hyderus y bydd yr angen am fwynau agregau'n cael ei fodloni dros gyfnod y Cynllun trwy gydweithio ar lefelau is-ranbarthol.

5.2 Mae'r Datganiad hwn wedi'i baratoi ar y cyd rhwng Cyngor Sir Ddinbych, Cyngor Sir y Fflint a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam. Mae'r dystiolaeth sy'n cael ei darparu yn y datganiad hwn yn rhoi digon o sicrwydd ar gyfer Archwiliad Cyhoeddus CDLl Sir y Fflint bod modd darparu'r ffigyrau cyfrannol sydd yn DTRh2 i ddarparu agregau o'r tir yn Sir y Fflint ar ffurf cerrig wedi'u malu a thywod a gro

yn y dyfodol, ar lefel is-ranbarthol, trwy gydweithio a chydweithredu rhwng awdurdodau.

5.3 Mae'r DCIR cyntaf hwn yn dangos bob pob rhan sy'n ffurfio is-ranbarth Gogledd-ddwyrain Cymru yn ymrwymo i gydweithio rhwng awdurdodau o ran darparu mwynau agregau, i ddarparu'r gyfran is-ranbarthol o'r DTRh fel is-ranbarth, i sicrhau cyflenwad sefydlog o fwynau agregau ar draws yr is-ranbarth a thu hwnt.

5.4 Mae Gwasanaeth Cynllunio ar y Cyd Mwynau a Gwastraff Gogledd Cymru'n ymrwymo i barhau i weithio gyda'r diwydiant a pherchnogion tir o fewn yr is-ranbarth i ddod o hyd i safleoedd newydd neu estyniadau i safleoedd chwareli sy'n bod eisoes er mwyn bodloni'r ffigyrau cyfrannol is-ranbarthol dros gyfnodau'r CDLlau.

DIWEDD
Fersiwn 3: Ebrill 2021